**Pennaeth / Headteacher: Miss N Downes**
**Ffôn / Tel: (01443) 670 319**
**E:-Bost / E:-Mail: admin.yggtonyrefail@rctcbc.gov.uk**

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ar ddydd Mawrth 6ed.

**Amseroedd Dosbarthiadau**

| Dosbarthiadau | Amser Dechrau | Amser Gorffen |
|---|---|---|
| Blwyddyn 3-6 | **9:00am** | 3:30pm |
| Blwyddyn 1-2 | **9:00am** | 3:25pm |
| Dosbarth Derbyn | **9:00am** | 3:10pm |
| Dosbarth Meithrin | **9:00am** | 12:00pm |

## Trefniadau'r dydd.

**<u>Disgyblion Blynyddoedd 3 - 6</u>**

- Disgyblion i gyrraedd yr ysgol rhwng 8:50am a 9:00am.
- Bl4, 5 a 6– mynediad drwy'r giat fechan sydd yn arwain o'r ffordd.
  Blwyddyn 3 – mynediad drwy'r brif fynedfa a'r giat fechan sydd wrth ymyl y dosbarth.
- Disgyblion yn gadael am 3:30pm.
- Rhieni i ymgynnull yn yr ardal wrth y brif fynedfa i gasglu eu plant ar ddiwedd y dydd

**<u>Disgyblion Blynyddoedd 1-2</u>**

- Disgyblion i gyrraedd yr ysgol rhwng **8:50am a 9:00am.**
- Rhieni i ddanfon y plant i giat y dosbarth.
- Rhieni i adael yr ysgol yn syth ar ôl trosglwyddo eu plentyn i ofal aelod o staff.
- Disgyblion yn gadael am **3:25pm.**
- Rhieni i aros wrth giat y dosbarth I'w plant ddod allan o'u dosbarthiadau.

**<u>Disgyblion y Dosbarth Derbyn</u>**

- Disgyblion i gyrraedd yr ysgol rhwng **8:50am a 9:00am.**
- Rhieni i fynd a'r disgyblion i ddrws y dosbarth drwy iard y babanod.
- Disgyblion yn gadael am **3:10pm.**
- Rhieni i gasglu'r plant o ddrws y dosbarth.

**<u>Disgyblion y Dosbarth Meithrin</u>**

Trefn y bore o Fedi 8fed ymlaen:

- Disgyblion i gyrraedd yr ysgol rhwng **8:50am a 9:00am.**
- Disgyblion yn gadael am **12:00pm.**
- Rhieni i fynd a'r disgyblion at / casglu o ddrws y dosbarth

**TREFNIADAU CYFFREDINNOL**

**Salwch**

- Os yw eich plentyn yn teimlo'n sâl yn y bore yna fe ddylech eu cadw adref **ac ni ddylent ddod i'r ysgol.**
- Os ydi eich plentyn yn dioddef o unrhyw salwch megis asthma lle ymae angen rhoi meddygyniaeth iddynt yn yr ysgol – dylid gofyn am gopi o ffurflen 'cyflwyno meddygyniaeth' yr ysgol a'i dychwelyd i'r swyddfa cyn gynted a bo modd.

**Alergeddau**

- Cofiwch roi gwybod i'r ysgol os oes gan eich plentyn unrhyw alergedd.

**Clwb Brecwast**

- Bydd y clwb Brecwast yn ail ddechrau ar Fedi 6ed yn dilyn y trefniadau arferol. **Rhaid i rieni dywys eu plant i'r dderbynfa yn ddyddiol i'w cofrestru ar gyfer y Clwb Brecwast.**

**Gwisg Ysgol**

- Gofynwn i ddisgyblion wisgo gwisg ysgol a gwisg ymarfer corff yn lliwiau'r ysgol – cofiwch i roi enw eich plentyn ar pob dilledyn, gan gynnwys cotiau, a bagiau.

**Gwersi Ymarfer Corff**

- Bydd y mwyafrif o wersi ymarfer corff yn cael eu cynnal yn yr awyr agored felly dylid sicrhau fod y plant yn gwisgo dillad addas. Amserlen i ddilyn.

**Parcio**

- Rydym yn eich atgoffa i beidio a **pharcio yn yr arosfan bysiau, o flaen gatiau'r ysgol nac ychwaith ym maes parcio'r staff.** Dylid rhannu'r wybodaeth hyn gyda unrhyw oedolyn sydd yn danfon / casglu eich plentyn o'r ysgol.

- Er mwyn hwyluso trefniadau teithio gofynwn yn garedig ichi i adael yn syth ar ôl danfon/casglu eich plentyn er mwyn sicrhau fod digon o le parcio ar gael.

**Gwyliau**

**Hanner Tymor** - Dydd Llun 31 Hydref 2022 - Dydd Gwener 4 Tachwedd 2022

**Diwedd Tymor** i'r disgyblion Dydd Iau 22 Rhagfyr 2022

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad parhaus

N. Downes